PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SWYDDOG DIGWYDDIADAU

**Pecyn Ymgeisio**

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl y Swydd:** Swyddog Digwyddiadau

**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodaeth

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio Ystwyth o'ch cartref neu yn y swyddfa gyda chyfarfodydd misol o leiaf wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd.

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 9AM ddydd Llun 15 Ebrill 2024**

**Cynhelir y cyfweliadau ddydd Llun 22 Ebrill 2024**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a glynir at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-hiliol, a chynyddu amrywiaeth trwy ddileu rhwystrau a chefnogi'n holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl, sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yn Plant yng Nghymru.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, heb ystyried oed, priodas a phartneriaeth sifil (yr un rhyw a gwahanrywiol), nam neu gyflwr iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd na mynegiant rhywedd.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Ni fyddant yn gweld eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

I arbed costau, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

# Gwybodaeth Bellach

**Contract:** Parhaol

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

**Graddfa Gyflog:** £33,864 y flwyddyn pro rata

**Gwyliau Blynyddol:** 25 diwrnod y flwyddyn pro rata

**Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan

**Gweithle:** Gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa yng Nghaerdydd

# Disgrifiad Swydd y Swyddog Digwyddiadau

## Cefndir y Rôl:

Diben y rôl hon yw datblygu, rheoli a gweithredu calendr digwyddiadau ar gyfer Plant yng Nghymru, sy'n cyflwyno digwyddiadau er mwyn ennyn diddordeb ein haelodau, yn ogystal â chefnogi cyflwyno digwyddiadau i'n gwirfoddolwyr ifanc.

Byddwch yn gweithio yn y Tîm Cyfathrebu ac Aelodaeth ac yn cydweithio'n agos ag eraill ar draws y sefydliad, gan gynnwys ein hadrannau Cymru Ifanc a Hyfforddiant, i gydlynu a threfnu amrywiaeth o ddigwyddiadau.

Byddwch yn ein helpu i ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau newydd fydd yn dod â'n haelodau at ei gilydd, yn ogystal â goruchwylio cyflwyno digwyddiadau craidd sydd eisoes yn bodoli, fel Gŵyl Flynyddol Cymru Ifanc a'n CCB. Bydd rôl i chi hefyd mewn digwyddiadau a amserlennwyd fel hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb, a byddwch yn cefnogi datblygiad presennol mewn digwyddiadau cenedlaethol sy'n cysylltu â'n hamcanion strategol a'n cenhadaeth.

Byddwch yn cydweithio'n agos ag eraill ar draws y sefydliad, yn ogystal â chyflenwyr allanol a phartneriaid, gan ddarparu cymorth gweinyddol a derbyn cyfrifoldeb penodol am gynnal ein digwyddiadau'n hwylus a'u cyflwyno'n llwyddiannus.

Mae'r rôl hon yn galw am y gallu i reoli cyllidebau, logisteg a threfniadau fydd yn sicrhau bod y rhaglen ddigwyddiadau yn cael ei chynnal yn hwylus ac yn broffesiynol ar hyd y flwyddyn. Mae'r gallu i fod yn hyblyg yng nghyswllt digwyddiadau, bod yn bresennol ynddynt, ac ar gael yn union wedi'r digwyddiadau ar gyfer unrhyw weithgareddau sy'n dilyn (e.e. dadfriffio, cyswllt â'r lleoliad ynghylch casglu nwyddau), yn hanfodol, ac rydym yn gweithredu system amser o'r gwaith yn lle oriau a weithiwyd, fel bod modd hawlio unrhyw oramser yn ôl yn ddiweddarach.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Datblygu a chynnal calendr o ddigwyddiadau i Plant yng Nghymru sy'n ennyn diddordeb yr aelodau presennol ac yn helpu i ddenu rhai newydd (ar y cyd â'r Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodaeth a chyda mewnbwn gan yr Uwch-dîm Arwain). Bydd gofyn i'r rhain gynnwys cyflwyno digwyddiadau sydd eisoes yn bodoli fel cyfarfodydd ein Cyngor Polisi (pan gânt eu cynnal wyneb yn wyneb), yn ogystal â sefydlu cyfres o ddigwyddiadau newydd, sydd â ffocws ar yr aelodau (seminarau, cynadleddau, digwyddiadau rhwydweithio).

- Goruchwylio cyflwyno Gŵyl Flynyddol Cymru Ifanc, sy'n gyfle allweddol i bobl ifanc sicrhau bod Gweinidogion yn clywed eu llais, ac yn elfen sylfaenol o'r calendr digwyddiadau y cyfeiriwyd ato eisoes.

- Arwain y gwaith o gyflwyno digwyddiadau i'r sefydliad fel prif bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau gan randdeiliaid mewnol ac allanol.

- Cyd-drafod partneriaethau a/neu nawdd ar gyfer digwyddiadau, gyda phartïon allanol, gan weithio ar y cyd â chydweithwyr mewnol.

- Goruchwylio adnoddau staff mewn digwyddiadau ac wrth baratoi ar eu cyfer (gan sicrhau bod cydweithwyr yn gwybod beth yw eu rolau a'u bod wedi'u briffio'n briodol) a sicrhau bod cyfathrebu mewnol effeithiol â'r staff, Rheolwyr a'r Uwch-dîm Arwain.

- Bod yn rheolwr prosiect ar ddigwyddiadau unigol o'r cysyniad gwreiddiol i'w cwblhau, gan gynnwys datblygu, cynhyrchu a chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol: agenda (gyda mewnbwn gan gydweithwyr priodol), chwilio am leoliad a chyd-drafod, cael hyd i siaradwyr/adloniant

(gyda mewnbwn gan gydweithwyr priodol), brandio a dylunio, logisteg y digwyddiad, goruchwylio gwasanaethau cofrestru a chynrychiolwyr, a sicrhau bod gwahoddiadau'n cael eu hanfon ac ymatebion yn cael eu cofnodi.

- Cyflwyno digwyddiadau'n brydlon ac o fewn y gyllideb.

- Coladu Adroddiadau rheolaidd ar Ddigwyddiadau, i gynnwys nifer y rhai oedd yn bresennol, adborth, a pherfformiad yn erbyn DPAion a'r gyllideb, ac ystyriaethau ar gyfer gwella i'r dyfodol.

- Gan weithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodaeth, cynhyrchu cynnwys marchnata ac ymgysylltu cymhellol sy'n hybu, yn ennyn diddordeb yr aelodau ac yn eu cefnogi, gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer digwyddiadau.

- Creu a rheoli cofnod o leoliadau, arlwywyr a darparwyr, a datblygu perthynas gyda rheolwyr lleoliadau fel bod modd cynllunio digwyddiadau'n hwylus.

- Marchnata digwyddiadau'n uniongyrchol i'r aelodau ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau bod trefniadau cyfochrog yn cael eu paratoi a'u cyflwyno'n brydlon, yn gywir, ac yn unol â manylion brand Plant yng Nghymru.

Arall

- Monitro a chynnal mewnflwch digwyddiadau ac ateb unrhyw gwestiynau;

- Ymateb i geisiadau allanol am wybodaeth;

- Gweithio'n unol â holl bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad;

- Diweddaru a chynnal dogfennau gweithdrefnau mewnol;

- Cynorthwyo'r Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodaeth gydag unrhyw ddyletswyddau a phrosiectau ad hoc;

- Cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r sefydliad, ac ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill ar gais y rheolwr perthnasol

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i'w gilydd, gan gyfrannu at gyflawni gweithgareddau'r sefydliad.

# Manyleb Person

## Cyffredinol

Mae rôl y Swyddog Digwyddiadau yn gyfle cyffrous i unigolyn brwd, hynod drefnus helpu i godi proffil Plant yng Nghymru a hawliau plant a chael effaith ar blant a'r sectorau cysylltiedig yng Nghymru. Bydd eich cyfraniad i waith ehangach Plant yng Nghymru yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hybu a'u cynnal yng Nghymru, a bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i leisio barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws y sefydliad, gan gefnogi timau i gyflwyno calendr o ddigwyddiadau mewn modd hwylus, proffesiynol ar hyd y flwyddyn. Byddwch yn gyfathrebwr ardderchog ac yn aelod naturiol o dîm.

Bydd eich cyfraniad i waith ehangach Plant yng Nghymru yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hybu a'u cynnal yng Nghymru, a bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i leisio barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Bydd gofyn bod deilydd y swydd yn teithio i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru.

## Gofynion Allweddol - Hanfodol

Addysg a Phrofiad:

- Trefnydd digwyddiadau profiadol
- Sgiliau rhagorol o ran rheoli prosiectau ac amser, a'r gallu i reoli prosiectau lluosog
- Profiad o weithio ar y cyd ag eraill
- Profiad o hwyluso digwyddiadau ymgysylltu i bobl ifanc
- Gwybodaeth am yr elfennau allweddol wrth reoli prosiectau a chynllunio digwyddiadau
- Rhoi sylw i fanylion a chywirdeb wrth ddefnyddio systemau, rheoli data ac yng nghyswllt dogfennau.

Galluoedd, sgiliau a medrau

- Gallu rheoli cronfeydd data/systemau digidol i oruchwylio cynllunio digwyddiadau
- Gallu cynhyrchu cynlluniau, adroddiadau a briffiadau clir, cryno a llawn gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog
- Gallu i weithio mewn tîm ac ar draws sawl tîm
- Gallu i weithredu rhaglenni gwaith at safon uchel, a chadw at derfynau amser
- Gallu cynrychioli Plant yng Nghymru mewn fforymau priodol
- Gwybodaeth ymarferol am logisteg digwyddiadau megis AV/Llwyfannu, arddangosfeydd, cynlluniau llawr, iechyd a diogelwch, cyswllt diogeledd, a sicrhau TG a'r rhyngrwyd

## Gofynion Allweddol – Dymunol

Addysg a Phrofiad

- Profiad o drefnu a chyflwyno digwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc

- Profiad o gynhyrchu ystod o ddeunyddiau ysgrifenedig a digidol, gan gynnwys agendâu, briffiadau a deunyddiau hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau
- Gallu i gyfathrebu yn Gymraeg
- Gallu i ddefnyddio meddalwedd dylunio fel Canva neu InDesign

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr

http://www.childreninwales.org.uk/